2.02JT9

**LC**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**DRAFT**

**Rheoliadau Echdynion Coffi ac Echdynion Sicori (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn gweithredu Cyfarwyddeb yr UE ynghylch disgrifio a labelu bwydydd sy'n cynnwys echdynion coffi neu sicori.

Gwnaed yr un diwygiadau ar gyfer Lloegr yn OS 2000/3323 a gwnaed hyn ar 17 Rhagfyr 2000 a daeth i rym ar 15 Ionawr 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Canfuwyd dau bwynt yr ymddengys bod drafftio'r Rheoliadau yn ddiffygiol mewn perthynas â hwy ac, yn yr ail enghraifft, lle mae anghysondeb ychwanegol rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg.

Mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â'r diffiniad o "awdurdod bwyd" yn Rheoliad 2(1). Nid oes i hwn unrhyw berthnasedd yng Nghymru a chan hynny ni ddylid ei gynnwys.

Mae'r ail bwynt yn ymwneud â'r darpariaethau sy'n rhagnodi terminoleg benodol ar gyfer marcio a labelu cynhyrchion. Mae'r testun Saesneg yn rhagnodi terminoleg Saesneg a'r testun Cymraeg yn rhagnodi terminoleg Gymraeg. Nid oes unrhyw ddarpariaeth i ddynodi a yw'n ofynnol cael labelu/marcio dwyieithog neu a ganiateir labelu mewn un iaith yn unig.

2.02JT9

Yr ydys o’r farn mai mân wallau drafftio yw’r materion uchod y byddai’n briodol eu cywiro mewn Memorandwm Cywiriadau.  Gan hynny, ar yr amod bod Memorandwm Cywiriadau yn cael ei gyflwyno gerbron y Cynulliad, mae’r Pwyllgor yn fodlon cyflwyno adroddiad nad oes unrhyw faterion yn codi o dan Rh.S 11.5 y mae angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**J H TURNBULL**
**Cynghorydd Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfau**

Cyf:  LAD 01-01-236

16 Chwefror 2001